| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **27 MAI 2021** |
| TEITL | **BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2021/22** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Chwefror 2022, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

1.2 Mae'r rhaglen waith atodol wedi bod yn destun sylw gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn cyfarfodydd gyda'r aelodau Cabinet a'r penaethiaid adran perthnasol (Cyllid a Chefnogaeth Gorfforaethol) a'r Ymgynghorydd Craffu yn ystod Mawrth 2021.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma, er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.

1.4 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, yr angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach, neu faterion yn codi o rôl craffu'r Pwyllgor mewn perthynas â materion corfforaethol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y blaen raglen atodol, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, a chynnig sylwadau.